Ydych chi'n cael trafferth darllen y cylchlythyr hwn? Edrychwch arno yn eich porwr.

# bwletin
## gweinyddiaeth etholiadol




**Rhifyn 305 (Cymru) – 14 Gorffennaf 2021**

## Cyhoeddi Bil Etholiadau Llywodraeth y DU

Yr wythnos diwethaf, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei Bil Etholiadau. Mae'r Bil yn cynnig newidiadau sylweddol i'r rheolau ar gyfer etholiadau yn y DU, a fydd yn effeithio ar weinyddwyr etholiadau, pleidleiswyr ac ymgyrchwyr. Mae'r Bil yn ceisio mynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â diogelwch, hygyrchedd a thryloywder etholiadau ac ymgyrchu.

Ymhlith y mesurau mae gofyniad i bleidleiswyr mewn gorsafoedd pleidleisio ddangos prawf adnabod â llun arno cyn iddynt gael eu papur pleidleisio; ymestyn y rheolau ynglŷn ag argraffnodau i ddeunydd digidol; a chael gwared ar y terfyn o 15 mlynedd ar hawliau pleidleisio i ddinasyddion Prydeinig sy'n byw dramor.

Yng Nghymru, byddai'r newidiadau yn y Bil yn gymwys i etholiadau Senedd y DU ac etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.

Byddwn yn rhoi cyngor annibynnol i seneddwyr ar gynnwys y Bil, yn seiliedig ar dystiolaeth gyhoeddedig a'n harbenigedd. Gallwch ddarllen crynodeb o'n barn ar bob un o fesurau'r Bil ar ein gwefan.

Mae'r Bil yn cynrychioli ymrwymiad cryf gan Lywodraeth y DU i foderneiddio ein system etholiadau a mynd i'r afael â meysydd y mae angen eu gwella.

Fodd bynnag, mae'r cyfreithiau sy'n ymwneud ag etholiadau eisoes yn gymhleth ac yn dameidiog, yn arbennig o ystyried y rheolau gwahanol sydd ar waith ar gyfer etholiadau datganoledig, felly gallai cyflwyno gofynion newydd ychwanegu mwy o risg. Bydd angen i'r newidiadau gael eu cynllunio'n dda, eu rhoi ar waith fesul cam a'u hariannu'n gywir, er mwyn sicrhau y gall gweinyddwyr etholiadau, ac eraill sy'n ymwneud ag etholiadau, gyflwyno'r newidiadau yn ôl y bwriad.

Byddwn yn gweithio gyda gweinyddwyr etholiadau, pleidiau, ymgyrchwyr a phleidleiswyr i baratoi at y rheolau newydd mewn da bryd, ac i sicrhau bod pawb sy'n ymwneud â nhw yn deall y dulliau gwahanol a ddefnyddir gan lywodraethau'r DU.

Y
Comisiwn
Etholiadol

## Cynnwys

**Cyhoeddi Bil Etholiadau Llywodraeth y DU**

Gwybodaeth am y Bil a dolen iddo a chrynodeb o'n barn ar fesurau'r Bil.

**Adroddiad y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus ar reoleiddio cyllid etholiadau**

Gwybodaeth am adroddiad y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus a dolen iddo.

**Adnoddau canfasiad 2021**

Gwybodaeth am y templedi o ddatganiadau i'r wasg a'r adnoddau ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol eu defnyddio i hyrwyddo'r canfasiad yn eu hardal, a dolen iddynt.

**Cyhoeddir Bwletinau Gweinyddiaeth Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'r prif ffyrdd o gyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol o'r Bwletinau ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael yma. Gallwch hefyd danysgrifio i'r Bwletinau Gweinyddiaeth Etholiadol.**

**Cofiwch roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau i'r staff yn eich tîm. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein rhestrau postio yn gyfredol.**

**Os oes Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol newydd wedi'i benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio**

## Adroddiad y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus ar reoleiddio cyllid etholiadau

Yr wythnos diwethaf, cyhoeddodd Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus ei adroddiad ar reoleiddio cyllid etholiadau. Mae'r adroddiad hwn yn gwneud nifer o argymhellion i fynd i'r afael ag arferion ymgyrchu modern, sicrhau mwy o dryloywder a darparu mesurau diogelwch cryfach mewn perthynas â ffynhonnell unrhyw arian a roddir.

Mae'r adroddiad yn deillio o adolygiad pwysig a gwerthfawr a gynhaliwyd gan y Pwyllgor, sy'n casglu bod y fframwaith rheoleiddio presennol yn gweithio'n dda ar y cyfan, ond y dylai'r rheolau adlewyrchu arferion modern. Rydym yn cytuno â'r Pwyllgor ei bod yn hanfodol sicrhau bod y system reoleiddio yn parhau'n dryloyw, yn gydlynol ac yn gymesur.

Mae llawer o argymhellion y Pwyllgor yn gyson â'r newidiadau a gynigiwyd gan y Comisiwn, megis rheolaethau rhoddion mwy llym, mwy o dryloywder ynghylch gwariant ar ymgyrchoedd digidol a diwygiadau i gyfundrefn cyllid ymgeiswyr. Rydym yn edrych ymlaen at weld ymateb Llywodraeth y DU maes o law a thrafod sut y gellir rhoi'r newidiadau ar waith.

Byddwn yn ystyried yr argymhellion a'r sylwadau eraill a wnaed gan y Pwyllgor yn ofalus, yn ogystal ag unrhyw gamau y gallwn eu cymryd er mwyn gwella ein ffordd o weithio a'n cefnogaeth i'r gyfundrefn reoleiddio. Rydym yn gwerthfawrogi mewnbwn a gwaith craffu'r Pwyllgor, ac yn arbennig y ffaith ei fod yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod y Comisiwn yn parhau'n annibynnol.

## Adnoddau canfasiad 2021

I gefnogi eich gwaith yn cynnal y canfasiad blynyddol, unwaith eto rydym wedi llunio amrywiaeth o dempledi o ddatganiadau i'r wasg ac adnoddau ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol.

Gellir defnyddio'r adnoddau i hyrwyddo'r canfasiad yn eich ardal, ac i annog trigolion i gadw llygad am negeseuon gennych ar gofrestru etholiadol. Mae'r adnoddau'n egluro beth yw'r canfasiad, sut y caiff ei gynnal eleni a'r hyn y mae angen i drigolion ei wneud.

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929
Ffôn testun: 18001 020 7271 0500
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
**www.comisiwnetholiadol.org.uk**
© Y Comisiwn Etholiadol 2021

**gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk**

**Rydym yn anfon y cylchlythyr hwn atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sy'n seiliedig ar Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a'ch manylion cyswllt yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a deddfwriaeth diogelu data y DU fel yr amlinellir yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd)**

**Os nad ydych am gael y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddatdanysgrifio ar unrhyw adeg.**